OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2915

## Gorchymyn Pysgod Môr (Ardal Benodedig) (Gwahardd Offer Gosod) (Cymru) 2010

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "yr ardal benodedig" ("*the specified area*") yw unrhyw ddyfroedd mewndirol neu ddyfroedd llanw yng Nghymru;

ystyr "brithyll mudol" ("*migratory trout*") yw brithyll sy'n mudo yn ôl ac ymlaen i'r môr;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "*Wales*" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006((**1**)).

ystyr "dyfroedd llanw" ("*tidal waters*") yw unrhyw ran o'r môr neu unrhyw ran o afon sydd o fewn trai a gorllan y llanw ar lanw mawr arferol;

mae i "dyfroedd mewndirol" yr ystyr a roddir i "*inland waters*" yn adran 221(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**2**);

mae "eog" ("*salmon*") yn cynnwys unrhyw bysgodyn o rywogaeth yr eog;

mae "offer gosod" ("*fixed engine*") yn cynnwys—

(a) rhwyd stanc, rhwyd cwdyn, rhwyd fasged neu rwyd fasged fawr;

(b) unrhyw declyn neu offeryn gosod ar gyfer cymryd neu hwyluso cymryd pysgod;

(c) unrhyw rwyd sy'n cael ei dal yn ei lle gan angorau ac unrhyw rwyd neu declyn arall ar gyfer cymryd pysgod, sy'n sownd i'r pridd, neu wedi'i osod yn sefydlog mewn unrhyw fodd arall; ac

(ch) unrhyw rwyd sy'n cael ei gosod, ei dal neu ei chynnal mewn unrhyw ddyfroedd mewndirol neu ddyfroedd llanw sydd heb fod yng ngofal y perchennog neu berson a awdurdodwyd yn briodol gan y perchennog i'w defnyddio ar gyfer cymryd pysgod môr, ac unrhyw offer, dyfais, peiriant neu beth, p'un ai a yw'n arnofio ai peidio, ar gyfer gosod neu ddal neu gynnal rhwyd o'r fath neu ei chynnal a'i chadw fel ei bod yn gweithio neu ei gwneud yn sefydlog; ac

ystyr "pysgod môr" ("*sea fish*") yw pysgod o unrhyw fath sydd i'w cael yn y môr, gan gynnwys pysgod cregyn, eogiaid a brithyll mudol;

(**1**) 2006 p.32.
(**2**) 1991 p.57.